


Gweledigaeth Strategol 2021- 2026

Dogfen Ymgynghorol



Cynnwys

Pam ein bod ni angen eich help Tudalen 2

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud Tudalen 3

Sut y medrwch chi fynegi barn am y weledigaeth drafft Tudalen 5

Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd Tudalennau 7 - 12

Ein blaenoriaethau strategol Tudalennau 13 - 18

Ffurflen Ymateb Tudalen 19

Cwestiynau Tudalen 21

Pam ein bod ni angen eich help

Dogfen ymgynghorol yw hon sy'n eich gwahodd i fynegi eich barn ar ein gweledigaeth ni ar gyfer y dyfodol. Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n datblygu Cynllun Strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn ystod mis Gorffennaf ac Awst. Rydym yn awyddus i ymgynghori mor eang â phosibl i sicrhau y byddwn wrth weithredu ein Cynllun Strategol yn aros yn driw i'n pwrpas fel sefydliad ac yn alinio â pholisi cyhoeddus Cymru. Rydym yn awyddus hefyd i sicrhau ein bod yn bodloni eich anghenion chwi fel defnyddiwr neu ddarpar ddefnyddiwr ac felly, bydd derbyn adborth a sylwadau gennych yn hynod ddefnyddiol i ni. Bydd y Strategaeth ei hun yn weithredol o 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2026.

Pwy ydym ni a beth rydym ni yn ei wneud

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o sefydliadau diwylliannol mwyaf gwerthfawr Cymru. Fel cartref cof y genedl, mae'n sicrhau bod hanes a threftadaeth Cymru'n cael ei ddiogelu ar gyfer addysg a mwynhad cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn llyfrgell ymchwil o'r radd flaenaf ac mae ei chasgliadau a'i harbenigedd yn eistedd ochr yn ochr â llyfrgelloedd ac archifau cenedlaethol ledled y byd. Hefyd, mae'n chwarae rôl arweiniol yn y sector ddiwylliannol a threftadaeth yng Nghymru trwy osod safonau arfer da ac yn cydweithio â mentrau cenedlaethol.

Ers ei sefydlu yn 1907, mae'r Llyfrgell wedi parhau i gasglu a diogelu treftadaeth ddogfennol Cymru ac arloesi gyda ffyrdd newydd o roi mynediad ehangach at ein casgliadau cenedlaethol gwerthfawr. Pwrpas a gweledigaeth sylfaenol y Llyfrgell Genedlaethol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i ddogfennu mewn ffurfiau a chyfryngau amrywiol dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym, i esbonio'r etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein ffurfio fel cenedl dros y canrifoedd, ac i ysgogi dysg ac ymchwil. Mae ein casgliadau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig am y byd ehangach, o safbwynt hanesyddol ac ar gyfer y gymdeithas gyfoes. Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw'r unig lyfrgell adnau cyfreithiol yng Nghymru ac mae'n un o ddim ond chwech yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. O ganlyniad i'r statws yma, mae gennym hawl i dderbyn copi am ddim o bob cyhoeddiad newydd o fewn y Deyrnas Unedig ac mae hyn yn graidd i gasgliad ymchwil o safon ryngwladol. Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestrdig ac yn Gorff a Noddir Gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Llyfrgell yn drysorfa enfawr o lyfrau, llawysgrifau, archifau, mapiau, lluniau, ffotograffau, papurau newydd, sain a ffilm sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae angen strategaethau a pholisïau addas ac effeithiol er mwyn rheoli'r casgliadau yn y tymor hir, a thrwy hynny sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Llyfrgell yn gyfrifol am dros 20 miliwn o eitemau, ac mae mwy a mwy o ddeunyddiau newydd i'w cael mewn fformatau digidol gan gynnwys miliynau o wefannau sy'n ein cyrraedd drwy adnau cyfreithiol electronig. Mae arbenigedd staff sy'n cadw, diogelu, catalogio a dehongli ein casgliadau ynghyd ag ymroddiad ein gwirfoddolwyr ffyddlon, sy'n ychwanegu gwerth at yr hyn a gyflawnir gennym, yn elfennau hanfodol o'r broses o sicrhau mynediad cyhoeddus yn y tymor hir yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gan y Llyfrgell hefyd rôl bwysig i'w chwarae yn economi Cymru. Mae'r angen i ddatblygu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth yn gwbl hanfodol os yw'n gwlad am ffynnu'n economaidd. Swyddogaethau pwysig i ni yw dileu rhwystrau at wybodaeth, sicrhau fod gan bobl Cymru'r sgiliau i greu gwybodaeth, cadw gwybodaeth ac ail-bwrpasu gwybodaeth, nid yn unig er lles y genhedlaeth bresennol ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn cyflawni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus ar gyfer ein Cymorth Grant, a fydd yn cael eu hamlinellu mewn Llythyr Cylch Gwaith. Rydym yn awyddus i gyfrannu at y gwaith o gryfhau cysylltiadau Cymru â gweddill y byd trwy ymgyswngtu â diwylliannau a gwledydd eraill.

Sut y medrwn chi fynegi barn am y weledigaeth drafft

Bydd y cyfnod ymgynghori - sef y cyfnod y byddwn ni'n rhoi cyfle i chwi gael dweud eich dweud - yn rhedeg o ddydd **Llun 1 Mehefin** hyd at ddydd **Llun 13 Gorffennaf 2020**.

Fe allwch chi fynegi barn a chyflwyno eich sylwadau trwy **lenwi'r ffurflen** a welir ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae croeso i chi hefyd gofnodi eich ymateb trwy ddull arall, megis fideo neu recordiad sain, os ydych yn dymuno.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn anfon eich sylwadau drwy e-bost at strategaeth@llyfrgell.cymru neu eu postio i **Strategaeth 2021-2026, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU**.

Byddwn yn gwahodd carfannau o randdeiliaid i ymateb i'n gweledigaeth strategol mewn cyfarfodydd ar-lein, a gallwch hefyd drefnu sgwrs un i un ag aelod o Dîm Gweithredol y Llyfrgell trwy gysylltu â Rhian Evans (rhian.evans@llgc.org.uk).

Mae'n bwysig fod y rhai hynny sy'n bwriadu dweud eu dweud yn sylweddoli fod y Llyfrgell Genedlaethol yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly'n gorfod ystyried unrhyw gais a wneir dan y Ddeddf am wybodaeth mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Os na ddywedir wrthym yn wahanol byddwn yn rhoi mynediad cyhoeddus ar yr ymatebion a dderbynnir i'r ymgynghoriad hwn.

Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a'u hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth arall er mwyn ein helpu i gwblhau ein Strategaeth 2021-2026.

Os nad ydych wedi dweud wrthym yn wahanol fe fydd modd i'r cyhoedd weld yr ymatebion ar ein gwefan ar ôl i ni sicrhau nad ydynt yn cynnwys deunydd enllibus na thramgwyddus.

Sylwadau

Y mae croeso i chwi gysylltu ynghylch y ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal. Anfonwch e-bost at: strategaeth@llyfrgell.cymru

Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd

Ein Gweledigaeth

Cael ein cydnabod fel un o lyfrgelloedd cenedlaethol mwyaf gwerthfawr, blaengar ac arloesol Prydain, Ewrop a'r byd wrth ddefnyddio cyfoeth ein hadnoddau diwylliannol i ddwyn buddiant i'n defnyddwyr, a sicrhau ein bod ni'n chwarae rôl ganolog ym mywyd Cenedl y Cymry nawr ac i'r dyfodol.

Ein Cenhadaeth

Darparu gwybodaeth am Gymru, pobl Cymru, ei hanes a'i diwylliant i'r byd a gwasanaethu'r genedl fel ei phrif lyfrgell ymchwil.

Trawsnewid Digidol

Bydd y pum mlynedd nesaf yn rhai trawsnewidiol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd ein swyddogaeth graidd a'n cenhadaeth yn aros fel ag y buont erioed: byddwn yn parhau i gasglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth o bob math, a hynny gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth am Gymru, pobl Cymru, ei hanes a'i diwylliant i'r byd. Bydd y trawsnewidiad i'w weld yn ein dulliau o gyflawni'r swyddogaeth hon a'n holl feddylfryd wrth wynebu'r dyfodol.

Mae gan dechnoleg ddigidol ran ganolog yng ngwireddu'r Weledigaeth hon. I raddau, bu'r cyfryngau digidol yn atodol i'n gweithgareddau craidd fel Llyfrgell Genedlaethol. Erbyn hyn, mae'n hollbresennol, yn cyffwrdd mewn rhyw fodd neu'i gilydd â'n holl wasanaethau a chasgliadau.

Ym mhob agwedd o'n cymdeithas ac economi, gwelir sut y mae'r digidol yn galluogi sefydliadau a busnesau i gyflawni eu hamcanion yn fwy effeithiol ac effeithlon er buddiant i'w defnyddwyr a'u noddwyr. Yn y pum mlynedd nesaf, byddwn fel Llyfrgell yn ymgymryd â'r her o gofleidio'r cyfle a'r trawsnewid hwn.

Casglu a chadwraeth

Un o brif heriau'r Oes Ddigidol yw diogelu mynediad at wybodaeth yn y tymor hir mewn cyfnod pan mae technoleg yn datblygu mor gyflym: mae'n hanfodol ein bod ni'n wynebu'r her hon yn hyderus, gyda chydweithrediad amrywiol bartneriaid ar draws Cymru.

Bydd cyfrifoldeb y Llyfrgell i gasglu a rheoli'r casgliadau cenedlaethol yn y tymor hir yn parhau, ond byddwn yn adolygu'n gyson y ffyrdd mae hynny'n digwydd, er enghraifft, yn ogystal â chasglu deunydd hanesyddol byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i gasglu a chadw archif modern, cyn iddo gael ei gollu.

Bydd ein casgliad adnau cyfreithiol electronig yn parhau i dyfu a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod casgliad archif y we yn adlewyrchu'r Gymru gyfoes.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio'r posibilrwydd o allu sefydlu Archif Genedlaethol yng Nghymru ac ystyried rôl y Llyfrgell yn ei datblygiad.

Mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru byddwn yn ystyried sefydlu ystorfa ddigidol genedlaethol y gellir ymddiried ynddi lle bydd gwybodaeth yn cael ei rheoli ar gyfer mynediad yn y tymor hir.

Bydd y Llyfrgell yn parhau i arwain strategaeth genedlaethol ar gyfer cadwedigaeth ddigidol a fydd yn cefnogi pob sefydliad sector cyhoeddus sydd angen cadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn hygyrch.

Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol

Byddwn yn sicrhau fod gan bobl Cymru a phobl o genhedloedd eraill nid yn unig gwell mynediad at ein casgliadau cenedlaethol, ond hefyd byddwn yn eu galluogi hwy i wneud defnydd creadigol o'r wybodaeth ynddynt gan gwmpasu elfennau torfoli, mynediad agored, Wicimedia, creadigrwydd ac ysgolheictod digidol, ymhlith elfennau eraill.

Felly, nid yn unig y byddwn yn cael ein cydnabod fel sefydliad arloesol o ran cynnwys digidol ond hefyd fel sefydliad blaengar a chynhwysol sy'n darparu mynediad o bell ac agos at wybodaeth a'r casgliadau sydd yn ein gofal, a hefyd fel sefydliad sy'n hwyluso'r defnydd ohono.

Gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd ein staff a'n Bwrdd, byddwn yn mynd ati i ddatblygu'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol yn ddiymdroi.

Perthnasol i fywyd y genedl

Mae'r Weledigaeth hon yn cydnabod bod angen i'n hadeilad yn Aberystwyth gael ei addasu a'i ddatblygu i fod yn gyrchfan diwylliannol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n arddangos rhai o brif drysorau ein cenedl.

Byddwn hefyd yn manteisio ar bob cyfle i fynd â'n casgliadau allan at y cymunedau hynny sy'n methu gwneud y daith i Aberystwyth, trwy sefydlu canolfannau parhaol a thrwy gynnal gweithgareddau mewn safleoedd addas.

Bydd gweithio gyda phartneriaid niferus, ac yn enwedig gyda'r partneriaid Cymru Hanesyddol a Chasgliad y Werin Cymru, er mwyn cefnogi mentrau lleol a chenedlaethol, a thrwy ein gwaith gwella cyfleoedd bywyd unigolion a gwireddu eu potensial personol, yn gwbl allweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Byddwn yn sicrhau ein bod ni'n berthnasol i fywyd y genedl a byddwn yn gosod strwythurau yn eu lle a fydd yn golygu ein bod ni'n siarad ac yn ymgynghori'n gyson gyda'n defnyddwyr.

Cefnogi'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg

Bydd holl wasanaethau'r Llyfrgell yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg, yn y manau mynediad ffisegol ac o bell. Byddwn yn cynyddu nifer y deunyddiau Cymraeg sydd ar gael ar-lein gennym a datblygu dulliau dwyieithog o reoli gwasanaethau digidol. Fel sefydliad trwyadl ddwyieithog lle defnyddir y Gymraeg yn eang a naturiol byddwn yn cyfrannu'n helaeth at amcan uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Llesiant yng Nghymru ac yn fyd-eang

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 byddwn yn ystyried yn ofalus effaith hir dymor ein penderfyniadau, gweithio'n well gyda'n partneriaid a'n defnyddwyr, a hynny er mwyn atal a dileu'r hyn sy'n annerbyniol yn ein cymdeithas, megis tlodi, anghydraddoldeb, afiechyd a newid hinsawdd. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod y Llyfrgell, ym mha bynnag weithgaredd mae'n ei wneud, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang

Byddwn yn gweithio'n gydlynol i greu'r wlad y dymunem ni oll fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Felly, bydd y Llyfrgell yn cyfrannu at gyrraedd saith nod llesiant y Ddeddf gan wneud gwahaniaeth positif a pharhaol nid yn unig i'r genhedlaeth bresennol ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol.

Ymgymryd â'r her

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff er mwyn sicrhau safon uchel ein gwasanaethau ynghyd â'r arbenigedd a'r cyngor y byddwn ni yn ei ddarparu i eraill. Wrth weithredu ein Cynllun Bobl a'n Strategaeth Datblygu'r Gweithlu byddwn yn sicrhau fod gan staff y Llyfrgell y sgiliau proffesiynol angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau gan ddatblygu sgiliau newydd a throsglwyddo arbenigedd i genhedlaeth newydd. Mewn cyfnod o ansicrwydd i gyllid cyhoeddus, bydd angen i ni sicrhau bod ein cynlluniau ariannol yn ein galluogi i gyflawni ein swyddogaeth graidd, a cheisio cael cyllid ychwanegol i arloesi a datblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd.

Byddwn hefyd yn sicrhau gwytnwch hirdymor y Llyfrgell drwy gynllunio ariannol gofalus, gwrth-risg ar gyfer y tymor hir.

Hyrwyddo effeithiol

Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith hyrwyddo yn disgrifio'n effeithiol beth sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig i gynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol, gan gynnwys diaspora Cymreig y tu hwnt i Gymru sy'n gallu elwa o'n gweithgareddau a gwasanaethau ar lein. Fel sefydliad diwylliannol cenedlaethol, byddwn yn gofalu fod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, drwy estyn allan, cyfoethogi bywydau, cefnogi dysgu a gwella cyfleoedd mewn bywyd.

Covid-19

Bydd Covid-19 yn dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a mawr obeithiwn y bydd y gwaethaf drosodd erbyn cyhoeddi ein Strategaeth ym mis Medi. Mae'r pandemig yn debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid cyhoeddus. Bydd angen i ninnau fel sefydliad diwylliannol ystyried sut y medrwn ni gyfrannu'n adeiladol at y prosesau o geisio adfer unigolion a chymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r cyfleoedd y mae Covid-19 wedi'u cynnig i ni'n cynnwys ymgyfarwyddo a gwneud gwell defnydd o dechnoleg wrth weithio o gartref ac wrth gynnal cyfarfodydd o bell, materion y byddwn yn eu hystyried a'u datblygu ymhellach ar ôl i'r Llyfrgell ailagor.

Cynllun Strategol Presennol

Mewn perthynas â pherfformiad a'r hyn y mae'r Llyfrgell wedi'i gyflawni yn ystod oes y cynllun strategol presennol, cyfeiriwn ni chi at ganlyniadau'r dangosyddion cyflawni ac adolygiadau blynyddol y Llyfrgell a welir yn www.llgc.org.uk.

Ein Blaenoriaethau Strategol 2021-2026

1. Casglu a Diogelu'r Casgliadau Cenedlaethol

Defnyddio ffyrdd arloesol o gasglu a diogelu'r casgliadau cenedlaethol sydd dan ein gofal er budd cenedlaethau'r dyfodol a'n defnyddwyr presennol.

<p>Byddwn yn casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, sy'n amlygu a dathlu amrywiol brofiadau a bywydau'r Cymry ar hyd y blynyddoedd.</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt, i ddiogelu casgliadau a chefnogi ymchwil a phrosiectau digidol sy'n darparu ffyrdd newydd o ddehongli casgliadau i gynulleidfaoedd amrywiol.</p>	<p>Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cadwrfa ddiogel ar gyfer y wybodaeth ddigidol ac archifau sydd yn ein gofal, fel rhan o fenter polisi hirdymor a mynd ati'n ddiymdroi i gasglu cofnodion digidol modern.</p>	<p>Byddwn yn mynd ati'n fwriadol i sicrhau fod ein casgliadau'n cynrychioli bob agwedd o fywyd Cymru ac yn enwedig bywyd y bobl a'r cymunedau hynny a dangynrychiolir yn ein casgliadau ar hyn o bryd.</p>
---	--	--	--

2. Hwyluso Mynediad at Wybodaeth

Byddwn yn ceisio rhoi'r mynediad ehangaf posibl i'n casgliadau.

<p>Byddwn yn cynyddu casgliadau a gwybodaeth sydd ar gael yn ddigidol.</p>	<p>Byddwn yn parhau i hwyluso mynediad mewn ffyrdd gwahanol, a Defnyddio ein casgliadau ar ein gwefannau, llwyfannau allanol a thrwy'r Adnoddau electronig yn ein hadeilad a'r manau eraill ble y mae gennym bresenoldeb.</p>	<p>Byddwn yn sefydlu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr, a darparu mynediad digidol mewn pedair canolfan mewn gwahanol rannau o Gymru.</p>	<p>Byddwn yn hyrwyddo casgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i gynulleidfaoedd ehangach, ac yn enwedig ymhlith unigolion a chymunedau a gefnogir gan y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd ddrwy Ddiwylliant a rhaglenni Eraill Llywodraeth Cymru.</p>
--	---	---	--

3. Bod yn Ganolog i Fywyd y Genedl

Byddwn yn sicrhau bod casgliadau a gweithgareddau'r Llyfrgell yn ysbrydoli ac addysgu pobl, gwella cyfleoedd bywyd unigolion a'u galluogi i wireddu eu potensial personol.

<p>Trwy ein gwaith ymestyn a phrosiectau addysg, byddwn yn Gweithio gyda chymunedau, ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau eraill i ddod â phobl at ei gilydd i ddathlu a hyrwyddo diddordeb yn ein casgliadau, ac yn nhreftadaeth a hanes Cymru.</p>	<p>Byddwn yn creu partneriaethau cydlynol, yn enwedig gyda chydweithwyr o fewn y sector, gan gynnwys llyfrgelloedd ac archifdai lleol i helpu pobl i ddarganfod eu hunain a'u cymunedau, a hyrwyddo ymdeimlad o barhad ac o berthyn.</p>	<p>Byddwn yn darparu arweiniad drwy sefydlu strategaeth seilwaith digidol cydlynol ar gyfer y sector llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru.</p>	<p>Byddwn yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg yn ein holl weithgareddau mewnol ac allanol.</p>
---	--	---	--

4. Trawsnewid Digidol

Byddwn yn sicrhau fod Trawsnewid digidol y Llyfrgell yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i ddarparu mynediad digidol i'n casgliadau.

Byddwn yn cydweithio ag eraill er mwyn sefydlu a rheoli'r Llyfrgell Genedlaethol Ddigidol, yn seiliedig ar seilwaith cydlynol ac egwyddorion proffesiynol, fel strategaeth hirdymor.	Byddwn yn effro i ddatblygiadau technolegol ac yn manteisio arnynt gan gynnal ein henw da fel canolfan o ragoriaeth sectorol.	Byddwn yn sicrhau fod ein strwythurau rheoli mewnol a'n technoleg yn briodol ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth strategol ac yn arfogi ein staff gyda sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt.	Byddwn yn datblygu perthnasau a phartneriaethau newydd er mwyn gweld newid, er gwell, i'r hyn a ddarperir gennym ac yn enwedig ym maes addysg ac yng nghyd-destun y cwricwlwm digidol newydd.
--	---	---	---

5. Cefnogi Dysgu ac Ymchwil

Byddwn yn cefnogi ac annog dysgu, ymchwil a darganfod

<p>Byddwn yn annog darganfod a rhannu gwybodaeth newydd trwy Hwb: Addysgu Digidol i Gymru a llwyfannau eraill a thrwy ddatblygu cydweithrediadau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol.</p>	<p>Byddwn yn darparu gwahanol lwybrau i bobl ymchwilio i'n casgliadau ac i ddysgu i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, dysgu gydol oes, creadigrwydd a datblygiad proffesiynol parhaus.</p>	<p>Byddwn yn datblygu ein rhaglen ysgolheictod ddigidol ac yn datblygu tîm o arbenigwyr traws ddisgyblaethol ym meysydd digido, llyfrgellyddiaeth, hanes digidol a'r dyniaethau, gwyddoniaeth gyfrifiadurol a data, i gynorthwyo defnyddwyr gydag ymchwil ddigidol.</p>	<p>Byddwn yn darparu cyfleoedd, yn y Llyfrgell a thu allan i'r Llyfrgell, ar gyfer dysgu a gweithgaredd anffurfiol sy'n hyrwyddo lles ar gyfer pob oedran.</p>
--	---	---	--

6. Datblygu'r Sefydliad

Byddwn yn sicrhau fod gan y Llyfrgell, yn ystod y blynyddoedd i ddod, yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei hamcanion strategol a datblygu ffyrdd arloesol newydd i roi mynediad ehangach at ein casgliadau cenedlaethol gwerthfawr.

<p>Pobl: Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl er mwyn cadw sgiliau proffesiynol, datblygu sgiliau proffesiynol, datblygu sgiliau newydd a throsglwyddo arbenigedd i genhedlaeth newydd.</p>	<p>Eiddo: Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hadeilad a'i barchu nid yn unig fel cartref ein casgliadau ond hefyd oherwydd ei fawredd fel adeilad eiconig o bwysigrwydd cenedlaethol.</p>	<p>Cynaliadwyedd: Bydd cynaliadwyedd yn ganolog i'n holl ystyriaethau a byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion llesiant fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>
<p>Cyllidol: Ymorol am wytnwch hirdymor y Llyfrgell er mwyn medru cyflawni ei bwrpas craidd, trwy ddatblygu perthynas cryf gyda'n noddwyr a cheisio arloesi fel ffordd o ddatblygu cyfleodd cyllido newydd.</p>	<p>Perthnasau: Byddwn yn gweithio gyda llu o bartneriaid strategol o fewn Cymru a thu allan, gan gynnwys partneriaid Cymru Hanesyddol, a sefydliadau Addysg uwch er mwyn datblygu cyfleoedd newydd i weithio ar brosiectau amrywiol, rhannu sgiliau a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant ar y cyd.</p>	<p>Gofalgar: Byddwn yn cael ein gweld fel cyflogwr gofalgwr sy'n rhoi bri ar les ac iechyd ein staff ac sy'n darparu gweithle diogel, amgylchedd di-straen sy'n parchu a dathlu amrywedd.</p>

Ffurflen Gwybodaeth Ymatebydd

Rhaid llenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd gyda'ch ymateb. I gael manylion llawn am sut y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dal ac yn defnyddio'ch gwybodaeth, gwelwch y wybodaeth ar y [Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data](#) ar ein gwefan, yn enwedig ein [datganiad preifatrwydd](#).

Gallwch hefyd [lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon arlein](#).

Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu sefydliad?

Unigolyn

Sefydliad

Enw llawn neu enw'r sefydliad

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod post

E-bost

Hoffai Llyfrgell Genedlaethol Cymru gael eich caniatâd i gyhoeddi eich ymateb ymgynghori. Nodwch eich dewis cyhoeddi:

Cyhoeddi ymateb gydag enw

Cyhoeddi ymateb yn unig (heb enw)

Peidiwch â chyhoeddi ymateb

Gwybodaeth i sefydliadau: Mae'r opsiwn 'Cyhoeddi ymateb yn unig (heb enw)' ar gael i ymatebwyr unigol yn unig. Os dewisir yr opsiwn hwn, bydd enw'r sefydliad yn dal i gael ei gyhoeddi. Os dewiswch yr opsiwn 'Peidiwch â chyhoeddi ymateb', mae'n bosibl y bydd enw'ch sefydliad yn dal i gael ei restru fel un sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn, er enghraifft, yr adroddiad dadansoddi.

Byddwn yn rhannu eich ymateb yn fewnol gyda'r rhai sy'n ymwneud â chwblhau'r strategaeth. Efallai yr hoffent gysylltu â chi eto yn y dyfodol, ond mae angen eich caniatâd arnom i wneud hynny. A ydych yn fodlon i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gysylltu â chi eto mewn perthynas â'r ymarfer ymgynghori hwn?

Ydw

Nac ydw

Cwestiynau

1. **Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd: A ydych chi'n credu y bydd ein Gweledigaeth 5 Mlynedd yn arwain at gyflawni ein swyddogaeth graidd mewn ffyrdd a fydd yn dwyn manteision i ddefnyddwyr y Llyfrgell a'r aelodau hynny o'r cyhoedd fydd am fanteisio ar ein gwasanaethau?**

Mynegwch eich barn yn y fan yma:

2. **Ymgymryd â'r her: Ydych chi'n cytuno â'n ffyrdd o fuddsoddi yn ein staff, cynllunio ariannol a hyrwyddo?**

Ydwyf

Nac ydw

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

3. Casglu a Diogelu'r Casgliadau Cenedlaethol: Ni yw gwarcheidwad y cof cyhoeddedig a chofnodedig o Gymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Ydych chi'n credu y bydd yr amcanion a amlinellir o fewn y flaenoriaeth strategol hon yn sicrhau diogelu casgliadau?

Ydwyf Nac ydw

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

4. Darparu Mynediad at Wybodaeth: Rydyn ni'n awyddus i'w gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad i'r casgliadau. Yn eich barn chi, a fydd ein cynlluniau o fewn y flaenoriaeth strategol hon yn ein helpu i wella mynediad i bawb?

Byddant Na fyddant

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

5. Bod Yn Ganolog i Fywyd y Genedl: Rydyn ni'n rhoi pobl wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud, gan gynnig amrywiaeth gyfoethog o ffyrdd i bobl gymryd rhan ac ymgysylltu â'u treftadaeth. Yn eich barn chi, a fydd ein cynlluniau o fewn y flaenoriaeth strategol hon yn ein helpu i gadw cynulleidfaoedd presennol ac ymgysylltu â rhai newydd?

Byddant Na fyddant

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

6. Trawsnewid Digidol: Bydd ein rhaglen Trawsnewid ddigidol yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i ddarparu mynediad digidol i'n casgliadau. Yn eich barn chi, a fydd ein cynlluniau o fewn y flaenoriaeth strategol hon yn cwrdd â'n nodau i ddarparu mynediad ehangach at ein casgliadau?

Byddant Na fyddant

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

7. Cefnogi Dysgu ac Ymchwil: Byddwn yn cefnogi ac annog dysgu, ymchwil a darganfod. Yn eich barn chi, a ddylem roi blaenoriaeth i gefnogi dysgu ac ymchwil?

Dylech Na ddylech

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb

8. Datblygu'r Sefydliad: Ein nod yw bod yn sefydliad gwych i weithio iddo a chyda trwy ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, cyflawni a phartneru. Yn eich barn chi, a ydym yn mynd â'r sefydliad i'r cyfeiriad cywir?

Ydych Nac ydych

Rhowch reswm (neu resymau) dros eich ateb.

9. **Blaenoriaethu. Pa flaenoriaethau strategol sydd bwysicaf i chi? Rhifwch yn unol â hynny, gydag 1 y pwysicaf a 6 y lleiaf pwysig.**

Casglu a Diogelu'r Casgliadau Cenedlaethol

Trawsnewid Digidol

Hwyluso Mynediad at Wybodaeth Ddibynadwy

Cefnogi Dysgu ac Ymchwil

Bod yn Ganolog i Fywyd y Genedl

Datblygu'r Sefydliad

10. **Sylwadau cyffredinol. Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw beth arall yr ydych am ei gyfrannu.**